

TAITH DRWY HANES – 2000 O FLYNYDDOEDD  
O YSBRYDOLRWYDD CRISTNOGOL YNG NGHYMRU



WALKING THROUGH HISTORY – 2000 YEARS  
OF **CHRISTIAN SPIRITUALITY** IN WALES

# CYFLWYNIAD

## CROESO I DAITH DRWY HANES - 2000 O FLYNYDDOEDD O YSBRYDOLRWYDD CRISTNOGOL YNG NGHYMRU

Mae gan Gymru hanes maith a diddorol, a rhan annatod o'n hanes ers dwy fil o flynyddoedd yw'r holl wahanol ffyrdd y mae pobl wedi mynegi eu ffydd yn Nuw fel Cristnogion. O gyfnod y merthyron Cristnogol cyntaf ym Mhrydain adeg y goresgyniad Rhufeinig, trwy oes y seintiau Celtaidd, cyfnod y mynachlogydd mawr ac ymlaen at yr adeg pan gyfieithwyd y Beibl a'i roi yn llaw'r werin, ac yna'r diwygiad Methodistaidd a hyd at ein cyfnod ni, mae pobl wedi byw eu bywyd ysbrydol fel rhan o'r teulu Cristnogol.

Yn yr adnodd hwn, rydym yn ceisio myfyrio ar rai o'r gwahanol ffyrdd y cafodd yr ymwybod hwn o Dduw a phrofiadau ysbrydol eu mynegi. Er ein bod ni yn byw mewn cyfnod a diwylliant gwahanol iawn i'n hynafiaid, mae llawer o agweddau ar eu dealltwriaeth a'u harferion ysbrydol yn taro tant hyd heddiw.

Wrth inni lunio'r adnodd hwn, daethom yn fwy ymwybodol o'r themâu allweddol sy'n rhedeg fel edafedd trwy hanes ysbrydolrwydd yng Nghymru. Un elfen arwyddocaol a fu'n rhan o ysbrydolrwydd Cristnogol ers yn gynnar iawn yw parch at y cread a'r Creawdwr, sydd yn parhau hyd heddiw. Mae'n ymddangos bod cyswllt rhwng hynny a'r ymdeimlad o berthyn i'r tir, o droedio ar dir cysegredig a bod mewn cytgord â'r Creawdwr. Ym mhob adran rydym yn rhoi pwyslais ar yr elfen honno. Elfen arall yw pwysigrwydd cymuned a phwyslais ar rannu, cydfwyta, cydweddió a chydganu fel Cristnogion. Felly hefyd y pwyslais ar yr Ysgrythur, ar ddarllen y Beibl a rhannu a myfyrio. Mae dyddiau a thymhorau, gwyliau ac ymprydau wedi datblygu'n rhan annatod o ysbrydolrwydd Cymru, yn ogystal â chanfod y cysegredig mewn pethau cyffredin. Drwy'r oesoedd gwelir ymrwymiad i gyfiawnder ac undod a hynny'n deillio o argyhoeddiad Cristnogol, yn yr un modd ag y gwelir cariad at ddysg – gan geisio ystyr mewn bywyd a'i holl anawsterau.



## CYNLLUNIWD YR ADNODD I'CH ANNOG:

- I ddysgu mwy am hanes Cristnogaeth yng Nghymru
- I fynd allan a mwynhau cerdded yn ein gwlad brydferth
- I rannu eich profiadau â ffrindiau a theulu o bob oed
- I roi cynnig ar rywbeth newydd
- I ganfod ffyrdd newydd o ddyfnhau eich ysbrydolrwydd chithau

## YM MHOB RHAN FE WELWCH:

- Wybodaeth hanesyddol
- Syniadau ar gyfer gweithgareddau i unigolion a grwpiau o bob oed
- Awgrymiadau ar gyfer mentro allan
- Gemau a phosau

## GAIR YNGLŶN Â MYFYRIO

Mae pobl ym mhob oes wedi ceisio dyfnhau eu dealltwriaeth ohonynt eu hunain, pobl eraill a Duw trwy gymryd amser i fyfyrio. Mae gan yr Eglwys Fethodistaidd adnoddau amrywiol yn ymdrin ag ysbrydolrwydd, i'ch helpu i feddwl yn ddyfnach.

# INTRODUCTION

## WELCOME TO WALKING THROUGH HISTORY - 2000 YEARS OF CHRISTIAN SPIRITUALITY IN WALES

Wales has a long and fascinating history and for 2000 years that history has been intimately tied to the many ways in which people have expressed their faith in God as understood by Christians. From the first British Christian martyrs during the Roman occupation, through the age of the Celtic Saints, the era of the great monasteries, the Bible becoming more accessible through translation, to the Methodist revival and down to the present day, people have experienced their spiritual life as part of the Christian family.

In this resource, we seek to reflect on some of the different ways this understanding of God and experience of spirituality has been expressed. Although separated by time and culture from those who came before us, many aspects of their spiritual understanding and practices still resonate for us today.

As we put this resource together we became more aware of key themes running as threads through the history of Welsh spirituality. Reverence for creation and the Creator has been a significant element of Christian spirituality since the earliest times and continues to this day. It seems to be linked to connectedness to the land – a sense of being on Holy Ground and being in tune with the Creator and in each section we encourage that element. The importance of community, of sharing, eating, praying, and singing together as Christians is a feature as is the emphasis put on Scripture, on reading, sharing, and reflecting on the Bible. Days and seasons, festivals and fasts have developed to be an integral part of Welsh spirituality as well as finding sanctuary in the everyday. Commitment to justice and solidarity deriving from Christian conviction is evident throughout the ages together with a love of learning - seeking meaning in life and life's difficulties



## THIS RESOURCE IS DESIGNED TO ENCOURAGE YOU TO:

- Learn more about the history of Christianity in Wales
- Get outside and enjoy walking in this beautiful land
- Share your experiences with friends and family of all ages
- Try something new
- Find new ways to deepen your own spirituality

## IN EACH SECTION YOU WILL FIND:

- Historical information
- Ideas for activities for individual and groups of all ages
- Suggestions for getting out and about
- Games and puzzles

## A WORD ABOUT BEING REFLECTIVE

In every era, people have sought to deepen their understanding of themselves, of others and of God by taking time to reflect. The Methodist Church has a variety of resources about spirituality to help you think more deeply.

# CYFNOD Y RHUFEINIAID

## NEWID FFYDD


### O ERLEDIGAETH I AMDDIFFYNIAD

Daeth Cristnogaeth i Gymru yng nghyfnod y Rhufeiniaid. Ychydig o dystiolaeth sydd gennym ynglŷn â Christnogaeth ym Mhrydain yn y cyfnod hwn, ond erbyn y bedwaredd ganrif mae'n debyg mai dyna'r grefydd a arferid yn fwyaf cyffredin yma.

Er hynny, ni ddaeth Cristnogaeth i'n gwlad ar unwaith pan ddaeth y goresgyniad Rhufeinig. Gwareiddiad amldduwiol oedd yr ymerodraeth Rufeinig, gyda phobl yn addoli amrywiol ysbrydion a duwiau, ac roedd Cristnogaeth a'r Cristnogion cynnar yn cael eu gweld fel bygythiad i ddiwylliant Rhufain. Cyn i Gristnogaeth gael ei mabwysiadu fel crefydd yr ymerodraeth yn y bedwaredd ganrif, roedd bod yn Gristion yn beryglus. Cafodd llawer o saint Cristnogol cynnar eu merthyru: os oeddent yn gwrthod gwadu eu ffydd, byddent yn cael eu lladd, mewn ffordd greulon yn aml. Ystyr y gair merthyr yw "tyst": roeddent yn datgan eu ffydd yn gyhoeddus ac yn talu pris trwm.

Er mai ychydig iawn a wyddom am Julius ac Aaron, dyma ddau o blith nifer bach iawn o Gristnogion y gwyddom amdanynt a ferthyrwyd ym Mhrydain yn oes y Rhufeiniaid. Cawsant eu lladd yng Nghaerllion ac mae sawl eglwys yn yr ardal honno yn dal i ddwyn eu henwau ac fe geir darluniau ohonynt mewn ffenestri lliw. Dyma a ysgrifennodd Gildas amdanynt yn y chweched ganrif: "Duw ... a oleuodd i ni lampau disglair y merthyron sanctaidd ... siaradaf am Aaron a Julius, dinasyddion Caerllion, a safodd yn gadarn ac uchelfrydig ym mrwydr Crist." Yn hytrach nag ildio a gwadu yr hyn roeddent yn credu ynddo, fe wnaethant wrthsefyll pob her i'r hyn oedd yn iawn yn eu golwg.

Wedi i Gristnogaeth ddod yn grefydd swyddogol yr Ymerodraeth Rufeinig, roedd Cristnogion yn cael eu hamddiffyn yn hytrach na'u herlid fel o'r blaen. Mae'n rhaid bod newid enfawr wedi bod yn syniadaeth pobl a'r modd roeddent yn gweld eu lle yn y byd: trawsnewidiad o ofn ac erledigaeth i groeso, diogelwch a sicrwydd.



### SUDOKU RHUFEINIG

I	IX	IV				III		VII
II					VII			
V			IX	I				IV
	I		II			IV	III	V
		II	III	VIII			IX	
III	V			IV	I	VII		
VI		V			IV		VII	
		I	V			II	IV	VI
IX		VIII		II	VI		I	

1 2 3 4 5 6 7 8 9  
I II III IV V VI VII VIII IX

# THE ROMAN ERA

## A CHANGE OF FAITH


### FROM PERSECUTION TO PROTECTION

Christianity came to Wales during Roman times. There is not much evidence about Christianity in Roman Britain, although by the fourth century, it was probably the most widely practiced religion here

The Roman invasion did not however bring Christianity with it at first. The Roman empire was a polytheistic (worshiping multiple spirits and gods) civilisation and Christianity and the early Christians were seen as a threat to Roman culture. Until the establishment of Christianity as the state religion of Rome in the fourth century, it was dangerous to be a Christian. Many early Christian saints were martyred: when they refused to give up their faith, they were killed, often brutally. The word martyr means "witness": they spoke publically of their faith in Jesus and paid a heavy price for it.

Although very little is known about Julius and Aaron, they are two of the very few known martyred Christians during Roman Britain. They were killed at Caerleon and a number of churches in the area still bear their images and names in stained glass windows. The 6th century writer Gildas wrote about them: "God ... kindled for us bright lamps of holy martyrs.... I speak of Aaron and Julius, citizens of Caerleon, who stood firm with lofty nobleness of mind in Christ's battle." Rather than submit and dishonour what they held to be true, they stood against those things that challenged what they believed to be right.


When Christianity was established in the Roman Empire, Christians who were previously persecuted were protected. That must have been a huge shift in people's thinking and how they understood their place in the world: transitioning from fear and persecution to welcome, safety and security.



### ROMAN SUDOKU

I	IX	IV				III		VII
II					VII			
V			IX	I				IV
	I		II			IV	III	V
		II	III	VIII			IX	
III	V			IV	I	VII		
VI		V			IV		VII	
		I	V			II	IV	VI
IX		VIII		II	VI		I	

1 2 3 4 5 6 7 8 9  
I II III IV V VI VII VIII IX



# DECHREUAD PETHAU

Ychydig iawn a wyddom am sut a ble roedd y Cristnogion Brythonaidd-Rufeinig yn addoli. Mae'n debygol eu bod yn dod ynghyd mewn cartrefi neu adeiladau bychain i ddathlu'r Ewcharist. Ymhlith yr ychydig dystiolaeth sydd gennym, mae symbolau Cristnogol i'w gweld ar gostrelau, powlenni, cwpanau a llwyau, a hynny'n awgrymu bod gwleddoedd Cristnogol yn cael eu cynnal ym Mhrydain yn y cyfnod Rhufeinig. Mae ansawdd y gwrthrychau hyn yn awgrymu bod pobl gyfoethog a phwerus wedi mabwysiadu Cristnogaeth.

Roedd arweinydd yr eglwys leol yn cael ei adnabod fel esgob ac mae cofnodion yn profi bod esgobion o Brydain wedi bod yn bresennol yng Nghyngor Ariminum yn yr Eidal. Roedd o leiaf tri esgob o Brydain yn bresennol yng Nghyngor Esgobion y Gorllewin yn Rimini yn y flwyddyn 359.

## CHWILAIR RHUFEINIAID

T	R	O	E	D	I	G	A	E	TH
I	W	I	D	F	B	E	B	S	C
R	E	O	FF	G	U	R	E	D	B
W	R	P	U	A	A	A	R	O	N
E	T	A	R	H	N	T	TH	F	E
DD	U	E	F	L	M	Y	O	G	W
A	A	S	I	C	W	U	P	H	I
C	Y	M	O	S	O	D	I	A	D
B	A	DD	O	N	A	U	A	L	N
A	M	DD	I	FF	Y	N	I	A	D

TROEDIGAETH  
BADDONAU  
ABERTH  
TIRWEDD

YMOSODIAD  
AARON  
AMDDIFFYNIAD  
CAERAU

NEWID  
FFURFIO

## MENTRO ALLAN


Fedwrch chi ddim teithio ymhell iawn yng Nghymru heb weld dylanwad y Rhufeiniaid ar y dirwedd a'r amgylchedd. Ffyrdd, enwau lleoedd, amffitheatrau a chaerau Rhufeinig; does dim angen teithio ymhell i gael blas ar hanes y rhain.



Pan fyddwch yn ymweld â safleoedd Rhufeinig, crwydrwch o gwmpas dipyn i weld pa argraff mae'r lle yn ei chael arnoch. Sut mae'r lle yn edrych? Sut mae'n teimlo i fod yno? Pa olion maen nhw wedi eu gadael ar y ddaear? Roedden nhw yno i amddiffyn y milwyr Rhufeinig.

Wrth gerdded o gwmpas, casglwch frigau neu ganghennau sydd wedi syrthio ar y ddaear. Rydym ni'n mynd i ddefnyddio'r rhain i amddiffyn y byd o'n cwmpas. Ceisiwch gael y darnau i gyd fel eu bod yr un hyd, eu bwndelu'n dynn at ei gilydd (gallwch ddefnyddio potel gyda'r pennau wedi'u torri i ffwrdd i'w gwneud yn haws) a'i chlymu'n dynn o gwmpas ar bob pen ac yn y canol.

Gallwch naill ai hongian hwn o gangen neu ei adael mewn man cysgodol o dan lwyn neu wrych. Rydych chi wedi gwneud eich amddiffynfa eich hun. Dewch yn ôl mewn wythnos neu ddwy i weld beth sydd wedi ei ddewis fel eu cartref.



# THE START OF THINGS

Very little is known about how and where Romano British Christians worshipped. They probably met together in homes or small buildings to celebrate the Eucharist. What evidence we have includes the existence of Christian symbols on flagons, bowls, cups, spoons, suggesting that Christian feasts were held in Roman Britain. The quality of these objects implies that Christianity was adopted by wealthy and powerful people.

The leader of the local church was called a bishop and it is known that British bishops were recorded as having attended the Council of Ariminum, which took place in Italy. At least three bishops from Britain attended the Western Council at Rimini in 359.

## ROMANS WORDSEARCH

C	O	N	V	E	R	S	I	O	N
A	A	R	O	N	B	A	T	H	S
W	I	I	F	T	B	C	E	I	D
E	O	N	G	Z	R	R	R	O	F
R	P	V	J	U	L	I	U	S	O
C	H	A	N	G	E	F	B	P	R
T	A	S	J	X	N	I	T	E	T
Y	S	I	K	C	M	C	Y	A	S
U	D	O	L	V	W	E	U	S	J
L	A	N	D	S	C	A	P	E	K

CONVERSION  
BATHS  
SACRIFICE  
LANDSCAPE

JULIUS  
TRIBES  
INVASION  
AARON

FORTS  
CHANGE

## OUT AND ABOUT

It is difficult to navigate across Wales and not see the impact and influence of Roman life on the landscape and environment. Roman roads, place names, amphitheatres and forts: you don't need to travel far to experience their history.



When visiting Roman sites, take a walk around them and take them in. What do they look like? What does it feel like to be in them? What imprint have they made on the earth? They were there to protect the Roman soldiers.

Whilst walking around, collect natural sticks, twigs or fallen branches. We are going to use these to protect the world around us. Try to get all the pieces so that they are the same length, tightly bundle them together (you can use a bottle with the ends cut off to make it easier) and tie it tightly around at each end and in the middle.

You can either hang this from a branch or leave it in a shady spot under a bush or hedge. You have made your own protection. Come back in a week or two and see what has chosen it as their home.

# Y CYFNOD CELTAIDD

## OES Y SEINTIAU

### ARWAIN Y FFORDD

Ni fu i'r Celtiaid ymerodraeth fel yr ymerodraeth Rufeinig. Pobl lwythol oeddent, yn byw mewn teyrnasoedd Brythonaidd ledled Prydain. Gyda dyfodiad yr Eingl-Sacsoniaid i Brydain, gwahanwyd llawer o'r hen deyrnasoedd Brythonaidd oddi wrth ei gilydd, wrth iddynt gael eu gyrru i Gymru, Cernyw a'r Alban. Esblygodd yr iaith Geltaidd, sef y Frythoneg, a dyna darddiad y Gymraeg, y Gernyweg a'r Llydaweg.

Er bod Cristnogaeth yng Nghymru yn mynd yn ôl i gyfnod y Rhufeiniaid, daeth hefyd dan ddylanwad cysylltiadau â Gâl a gwledydd Celtaidd eraill. Nid oedd un eglwys Geltaidd unedig ond roedd nodweddion arbennig yn perthyn i Gristnogion ac eglwysi Celtaidd. Roeddent yn gweld Duw ym mhopeth, a hynny'n arwain at barch dwfn tuag at y cread a pharchedig ofn tuag at Dduw y creadwr. Ar y Beibl yr oedd eu pwyslais, ac ar weddi yn gwau trwy fywyd pob dydd. Yr ymgnawdoliad oedd sail eu diwinyddiaeth, gan ganoli ar ddyfodiad Duw yn ddyrn yn Iesu Grist. Roedd eu celfyddyd a'u llên yn aml yn portreadu'r Drindod – y Tad, y Mab a'r Ysbryd Glân. Roedd trefn dyddiau a thymhorau yn bwysig ac felly hefyd wyliau Cristnogol, lle gwelwyd dylanwad yr hen grefydd Geltaidd. A hwythau'n byw yn agos at natur, roedd bywyd syml yn apelio at lawer o Gristnogion Celtaidd, gyda rhai yn byw bywyd meudwy gan ymneilltuo o gymdeithas. Arweiniodd hynny at fath newydd o fynachaeth.

Roedd Oes y Seintiau yn y chweched a'r seithfed ganrif yn oes aur pan welwyd twf mewn Cristnogaeth yng Nghymru a phan sefydlwyd mynachlogydd mawr gan saint fel Dewi, Deiniol, Illtud, Padarn a Teilo. Roedd y saint Celtaidd yn enwog am eu hymrwymiad i weddi a phregethu. Mae rhai hyd yn oed yn cael eu hadnabod fel 'merthyron' am iddynt ymwrthod mor llwyr â'r byd. Daeth llawer o'r saint i enwogrwydd yn sgil chwedlau arwrol poblogaidd ynglŷn â phwerau a gwyrtiau, a ddatblygodd fel rhan o'r defosiwn iddynt. Yn aml iawn câi buchedd sant ei hysgrifennu ymhell wedi oes y sant hwnnw, yn yr unfed ganrif ar ddeg neu wedyn, mae'n bur debyg.



Roedd Oes y Seintiau yn gyfnod o genhadu brwd iawn, pan welwyd cenhadon Celtaidd yn hwylio'r moroedd i ledaenu'r ffydd Gristnogol a datblygu'r fynachaeth newydd hon yn Iwerddon, Cymru, Cernyw, yr Alban, Llydaw a rhannau o Loegr. Dywedir mai un ohonynt oedd Padrig, a oedd efallai yn hanu o Gymru ac a hwyliodd o Fôn i Iwerddon.

Mae effaith Oes y Seintiau i'w gweld yn glir yng Nghymru heddiw, yn enwau'r holl lannau a enwyd ar eu holau. Gair a ddefnyddiwyd ar gyfer tir cysegredig sef mynwent Gristnogol oedd 'llan' yn wreiddiol ond yn ddiweddarach daeth i olygu mynachlog neu eglwys a gysegrwyd i sant neu gymeriad pwysig o'r Beibl. Ambell dro hefyd, fe enwyd llan ar ôl y sawl a roddodd y tir. Beth am edrych i mewn i hanes un o'r llannau yn eich ardal chi, gan ystyried pa gysylltiadau sydd rhwng y lle a'ch ysbrydolrwydd chi eich hun?

### CWESTIYNAU AR GYFER MYFYRIO A THRAFOD

- Roedd agwedd sacramentaidd y Gristnogion Celtaidd yn golygu eu bod yn gweld Duw ym mhopeth. Ym mhle yn eich bywyd pob dydd y byddwch chi'n gweld yr agwedd ysbrydol ar bethau?
- Gan ein bod ni y dyddiau hyn yn poeni am newid yn yr hinsawdd a moeseg werdd, sut y gellir ceisio cynnal ysbrydolrwydd trwy fyw yn syml ac yn aberthol?



## CELTIC ERA THE AGE OF THE SAINTS

### LEADING THE WAY

The Celts were never an empire as the Romans were. They were made up of tribes living in Brittonic kingdoms across Britain. During the migration of the Anglo-Saxons to Britain many of the old Brittonic kingdoms became separated as they were driven to Wales, Cornwall, Scotland. The Celtic language known as Brittonic (or Brythonic) evolved into the Welsh, Cornish and Breton languages.

Although Christianity in Wales had its origins in the Roman period it was influenced by its links with Gaul and other Celtic lands. There was no single united Celtic church but Celtic Christians and churches were distinctive. They saw God in everything, which led to a real respect for the created world and great reverence for God the creator. Their emphasis was on the Bible and on prayer integrated in daily living. Their theology was incarnational – centred on God becoming human in Jesus. Works of art and literature often featured God the Trinity – Father, Son and Holy Spirit. The order of days and seasons were important as were Christian festivals, influenced by the old Celtic religion. Living close to nature, many Celtic Christians were drawn to the simple life, with some turning to live as hermits, retreating from settled society, leading to a new kind of monasticism.

The Age of the Saints in the 6th and 7th centuries was a golden period of growth for Christianity in Wales with the establishment of large monasteries by saints such as Dewi (David), Deiniol, Illtud, Padarn, and Teilo. Celtic saints were noted for their devotion to prayer and preaching. Some are even known as 'martyrs' due to the extremity of their renouncement of the world. Many of the saints have become infamous by the much loved heroic tales and legends about powers and miracles, which have developed as part of the 'cult' surrounding them. Very often, the 'Life' or biography of the saints would have been written long after the saints lived, probably from the 11th century onwards.



The Age of the Saints was a time of fervent missionary endeavour with Celtic missionaries sailing the seas to spread the Christian faith and develop this new monasticism in Ireland, Wales, Cornwall, Scotland, Brittany and parts of England. One of these is said to be Patrick, who was possibly from Wales, and sailed from Anglesey to Ireland.

The impact of the age of saints is evident in Wales today. Saints are often associated with the planting of the many 'llannau' across Wales. The origins of the word 'llan' relates to consecrated Christian burial ground but the name 'Llan' later became synonymous with monasteries and churches often dedicated to a Saint or a key Biblical figure. Think of a place name starting with Llan near you, explore the story behind that name and consider what connections it may have with your own spirituality.

### QUESTIONS TO PONDER AND DISCUSS

- The sacramental outlook of the Celtic Christians meant that they saw God in everything. Where do you see the spiritual in your everyday life?
- In our days of concern for climate change and green ethics how can spirituality be explored through simple and sacrificial living?



# TEILO SANT



Un o saint y chweched ganrif oedd Teilo, a fu ar deithiau cenhadol ac a oedd yn hanu o Benalun yn Sir Benfro. Cefnder, cyfaill a disgybl i Dewi Sant ydoedd. Bu'n gydymaith i Dewi pan sefydlodd y gymuned grefyddol yn Nhŷ Ddewi. Aeth Teilo gyda Dewi a Phadarn ar bererindod i Jerwsalem, lle cawsant eu cysegru'n

esgobion. Sylfaenodd yr Esgob Teilo sefydliad mynachaid bychan Llandeilo Fawr ac un arall yn Mhenalun.

Dywedir hefyd fod Teilo yn un o gyd-sylfaenwyr yr eglwys gyntaf yn Llandaf ac yn bennaeth ysgol fynachaid yno, ac yn ogystal mai ef oedd ail esgob Llandaf. (Esgob cyntaf Llandaf oedd Dyfrig, y sant Celtaidd cyntaf efallai.) Bu'n rhaid i Teilo a'i gyd-fynaich ffoi tua'r flwyddyn 549 i Gernyw ac yna i Lydaw, rhag y fad felen. Yno fe gydweithiodd am saith mlynedd â sant arall o Gymru sef Samson o Dol. Dywedir iddynt blannu erwau o goed ffrwythau, a elwir o hyd yn gellioedd Teilo a Samson.

Dychwelodd Teilo i Landeilo. Pan fu farw fe'i claddwyd yn Llandaf ac mae'n un o dri sant y cysegrwyd Cadeirlan Llandaf iddynt. Daeth Teilo yn un o saint mwyaf hybarch Cymru ac mae o leiaf 25 o eglwysi ac ysgolion wedi'u cysegru iddo yng Nghymru yn ogystal â 3 phentref yn Llydaw. Ef yw nawddsant Caerdydd, coed ffrwythau a cheffylau.

Ymlaciwch trwy liwio'r llun hwn o Teilo Sant. Ceisiwch ddefnyddio lliwiau naturiol yn unig, y lliwiau sydd i'w gweld ym mynd natur o'ch cwmpas - efallai y byddwch yn synnu mor amrywiol a lliwgar yw'r byd!

## YSGOL EIRIAU

Sut mae cyrraedd o CELT i SANT drwy newid un llythyren bob tro gan wneud gair newydd ar bob cam o'r ysgol?

<b>CELT</b>
<b>SANT</b>

## MENTRO ALLAN



- Beth am ymweld â Chadeirlan Llandaf i weld bedd Teilo Sant? Mae creirfa yn y capel deheuol yno, y dywedir ei fod yn cynnwys rhan o benglog Teilo. Gerllaw'r gadeirlan y mae ffynnon Teilo.
- I ddathlu cread Duw, ewch i ymweld â phrosiect cadwraeth natur fel un o safleoedd Prosiect Gweilch y Pysgod, Glaslyn, Dyfi neu Lyn Brenig; prosiect Gwiwerod Coch; safle RSPB; neu Ardd Fotaneg Genedlaethol Cymru.

# ST TEILO

St Teilo was a 6th century saint and missionary from Penalun, Pembrokeshire. He was a cousin, friend and disciple of St David and went with him to establish his religious community at St David's. St Teilo accompanied St David and St Padarn on pilgrimage to Jerusalem where they were consecrated

as bishops. Bishop Teilo founded Llandeilo Fawr, a small monastic settlement at Llandeilo and another at Penally Abbey.

Teilo is also reputed to have co-founded the first church at Llandaff, headed up a monastic school there and became its second bishop. (The first bishop of Llandaff was Dyfrig, said to be the first Saint of Celtic Christianity.) An outbreak of yellow fever around 549 AD forced Teilo and his fellow monks to flee to Cornwall and then to Brittany where he worked for seven years alongside another Welsh saint, Samson of Dol. It is said that they planted acres of fruit trees, still known as the groves of Teilo and Samson.

St Teilo returned to Llandeilo. When he died he was buried at Llandaff. He is one of the three saints in whose honour Llandaff Cathedral is dedicated. St Teilo became one of the most revered Welsh saints with least 25 churches and schools dedicated to him in Wales and 3 villages in Brittany. He is the patron saint of Cardiff, of fruit trees and of horses.

Use this picture of St Teilo as a little bit of relaxation by colouring it in. Try to use only natural colours, the colours of the world you see around you - you may be surprised at how diverse and colourful the world is!

## WORD LADDER

Make your way from CELT to SALT by changing just one letter in each step to make a new word.

<b>CELT</b>
<b>SALT</b>

## OUT AND ABOUT



- Why not make a visit to Llandaff Cathedral which houses the tomb of St Teilo? A reliquary with a reputed fragment of his skull can be found in the south chapel. St Teilo's well is located near the Cathedral.
- To celebrate God's creation, visit a nature preservation project e.g. Glaslyn, Dyfi or Brenig Ospreys Project sites, Red Squirrels Projects, RSPB sites, or the National Botanic Garden of Wales.



# Y SISTERSIAID YNG NGHYMRU

## AMSER AM NEWID

Yn sgil dyfodiad y Normaniaid yn 1066, gwelwyd newid mawr o safbwynt Cristnogaeth yng ngwledydd Prydain. Dyma rai gwahaniaethau:

Eglwysi Celtaidd	Eglwysi Normanaidd
Trefn yn seiliedig ar y drefn lwythol leol	Trefn yn seiliedig ar yr Ymerodraeth Rufeinig
Eu henwi'n aml ar ôl sefydlwyr neu noddwyr	Eu henwi ar ôl saint ymadawedig fel rheol
Esgobion teithiol	Esgobion yn goruchwylio rhanbarthau

Golygodd y drefn eglwysig a ddaeth yn sgil y Normaniaid sefydlu amryw o fynachlogydd ledled Prydain. Yng Nghymru, y Sistersiaid oedd yr urdd fwyaf dylanwadol o fynaich a lleianod. Sefydlwyd eu mynachdai a'u habatai yma rhwng 1131 a 1226.

Ffurf ddiwygiedig ar yr Urdd Fenedictaidd oedd yr Urdd Sistersiaidd. Roedd y mynaich yn byw bywyd disgybledig iawn, gan ddilyn patrwm o weddi a gwaith corfforol. Gwisgent grysbas o ddefnydd rhad, garw nad oedd wedi ei lifo, gyda chwfl dros y pen. Pan fyddent yn gweithio byddai ganddynt wisg heb lewys o'r enw ysgablar.


Gweddi, gwaith corfforol a darllen y Beibl yn weddigar, sef *lectio divina*, oedd sail bywyd y mynaich. Rhoddai'r mynachlogydd ymgeledd ysbrydol i drigolion lleol; byddent yn cynnig lletygarwch i deithwyr a lle i gladdu'r meirw, gyda'r cyfan yn atgyfnerthu cefnogaeth i'r tywysogion Cymreig wrth iddynt ddal seciwlar dros diroedd ac yn lleol.

## EISIAU BWYTA YR UN FATH Â MYNACH O'R CANOL OESOEDD?

I ddechrau, un waith y dydd fyddwch chi'n bwyta.

Bydd angen torth o fara cyflawn, gwenith neu haidd – tua 450 gram.

Gwnewch gawl neu botes o ffa neu bys, gyda nionod, moron, maip a bresych os oes rhai wrth law. Ychwanegwch berlysiâu ffres. Cymerwch wydraid mawr o win, tua 250 ml, a mwynhewch eich pryd.



Awydd wyau, pysgod neu gig? Bydd yn rhaid aros nes bydd hi'n ddiwrnod gŵyl – ond wrth lwc roedd tua 60 diwrnod gŵyl mewn blwyddyn!

## CHWILAIR SISTERSIAID

A	B	A	T	Y	C	W	M	H	I	R	U	Y	H
B	E	P	H	L	W	I	A	G	H	M	I	S	E
E	G	L	Y	N	Y	G	R	O	E	S	O	T	N
R	R	A	LL	C	E	O	G	T	L	W	P	R	D
C	T	S	A	B	R	P	A	Y	C	E	A	A	Y
O	Y	D	N	E	DD	A	M	N	B	R	S	D	G
N	U	F	LL	N	T	S	F	D	N	T	D	FF	W
W	I	G	Y	M	U	D	C	Y	M	E	R	L	Y
Y	S	T	R	A	D	M	A	R	C	E	LL	U	N
W	O	LL	A	N	T	A	R	N	A	M	F	R	G

LLANLLYR  
TYNDYRN  
HENDY GWYN  
MARGAM

YSTRAD FFLUR  
YSTRAD MARCELL  
NEDD  
GLYN Y GROES

ABATY CWMHIR  
LLANTARNAM  
ABERCONWY  
CYMER



# THE CISTERCIANS IN WALES

## A TIME FOR CHANGE

With the coming of the Normans in 1066, everything in Christian Britain began to change. Some of the differences were:

Celtic Churches	Norman Churches
Structures based on the local tribal system	Structures were based on the Roman Empire
Were often named after their founders or donors	Were usually named after departed saints
Bishops were wanderers	Bishops oversaw territories

The church structures brought by the Normans included a number of monasteries across Britain. In Wales, the most influential order of monks and nuns was the Cistercians. Their monasteries and abbeys were established here between 1131 and 1226.

The Cistercian order was a reformation of the Benedictine order. Monks followed a strict way of life, alternating prayer and manual work. They wore cheap and rough undyed tunics, covered their heads with hoods called cowls and when working, wore sleeveless robes called scapulars.

The monks lived a life of prayer, manual labour, and prayerful Bible reading, called *lectio divina*. Monasteries provided the local people with spiritual services, places to stay on their travels, places to be buried, and places, all of which reinforced the Welsh princes' own secular, territorial and local power.

## DO YOU WANT TO EAT THE SAME AS A MEDIEVAL MONK?

First, plan to eat just once a day.

Get yourself a loaf of whole grain wheat and barley bread – about 450 grams

Make a stew or “pottage” of beans or peas, with any onions, carrots, turnips and cabbage you can find. Add some fresh herbs. Grab a large tumbler of wine – about 250 ml, and dig in.



Fancy some eggs, fish or meat? You'll have to wait for a feast day – but fortunately there were about 60 feast days every year!

## CISTERCIANS WORDSEARCH

A	B	B	E	Y	C	W	M	H	I	R	N	Y	W	H
B	W	O	G	H	C	Q	A	I	D	L	M	U	H	J
E	E	T	I	N	T	E	R	N	F	Z	Q	I	I	K
R	R	P	LL	J	V	W	G	O	G	X	W	O	T	L
C	N	E	A	T	H	E	A	P	H	C	E	P	L	Z
O	T	A	N	L	B	R	M	A	J	V	R	A	A	X
N	Y	S	LL	Z	N	T	U	S	K	B	T	S	N	C
W	U	D	Y	X	M	Y	C	Y	M	E	R	D	D	V
Y	I	F	R	LL	A	N	T	A	R	N	A	M	F	B
S	T	R	A	T	A	F	L	O	R	I	D	A	G	N

LLANLLYR  
TINTERN  
WHITLAND  
MARGAM

STRATA FLORIDA  
NEATH  
ABBEY CWMHIR  
LLANTARNAM

ABERCONWY  
CYMER




## PALMANTU'R FFORDD

### BYWYD ABATY

Roedd 15 o abatai neu fynachlogydd Sistersiaidd yng Nghymru, dau ar gyfer menywod a'r gweddill ar gyfer dynion. Buont yn allweddol o ran newid cyflwr economaidd Cymru. Roedd yr awdur Gerallt Gymro yn edmygu'n fawr yr effaith a gawsant ar gefn gwlad. O fewn blwyddyn neu ddwy wedi iddynt ymgartrefu mewn coedwig wyllt, meddai, byddant wedi codi eglwysi a mynachdai. Golygai eu sobrwydd, eu darbodaeth a'u sgiliau cynllunio na fyddent fawr o dro yn gwella'r tir a chreu cyfoeth.

Brodyr lleyg, sef rhai o'r werin bobl leol, fyddai'n gweithio yn y caeau ac ar wahanol grefftiau. Nes dyfodiad y chwyldro diwydiannol, yn y mynachlogydd y cafodd y rhan fwyaf o'r datblygiadau eu gwneud yn Ewrop o ran technoleg melino blawd, cynhyrchu brethyn, trin crwyn a meteleg.



### WYDDECH CHI?

- Roedd gan fynaich a lleianod Sistersiaidd wyth cyfnod o weddi bob dydd.
- Byddent yn mynd i'r gweld am 8 o'r gloch ac yn codi am 2 o'r gloch y bore ar gyfer gwasanaeth cyntaf y dydd.
- Roedd masnachwyr o Fflandrys a'r Eidal yn rhoi gwerth mawr ar wllân rhagorol Cymru o diroedd y mynachlogydd Sistersiaidd.

### MENTRO ALLAN

- Gadawodd y Sistersiaid eu hól drwy Gymru benbaladr. Gallwch gerdded o'r naill abaty i'r llall ar hyd Ffordd y Sistersiaid.
- Beth am ddiwrnod allan gyda theulu neu ffrindiau, yn ymweld ag Ystrad Fflur? Mae adfeilion yr abaty hwn sydd mor bwysig yn ein hanes, man gorffwys beirdd a thywysogion, i'w gweld yn harddwch Ceredigion. Cadw sydd yn gyfrifol am gynnal a chadw'r safle ac mae mynediad yn rhad ac am ddim.



### PERLYSIAU IACHUSOL

Byddai'r mynaich yn tyfu perlyisiau yng ngerddi'r fynachlog, ar gyfer coginio ac at ddibenion meddyginiaethol.

Beth am i chithau dyfu perlyisiau i'w defnyddio i goginio? Rhai o'r perlyisiau poblogaidd oedd saets, persli, mintys a dil. Gallwch dyfu unrhyw un o'r rhain mewn potyn mewn lle heulog.






## PAVING THE WAY

### ABBEY LIFE

There were 15 Cistercian abbeys or monasteries in Wales: two were for women, and the rest for men. They were instrumental in changing the economic landscape of Wales. The writer Gerald of Wales was very impressed by their impact on the countryside, saying that within a year or two of settling in an overgrown forest, they will have built churches and monastic buildings. Their sobriety, thrift and planning skills meant that they very quickly improved the land and created wealth.

Lay brothers, recruited from the local peasantry, carried out the field works and worked at various trades. Until the industrial revolution, most of the technological advances in Europe in milling flour, cloth production, leather tanning and metallurgy were made in the monasteries.



### DID YOU KNOW?

- Cistercian monks and nuns had eight services of prayer every day.
- They went to bed at 8 o'clock and got up at 2 o'clock for the first service of the day.
- High quality Welsh wool from Cistercian monasteries was prized by Flemish and Italian merchants.

### OUT AND ABOUT

- The Cistercians have left their mark across Wales. You can walk between the sites of their abbeys along the Cistercian Way.
- For a day out with friends or family, why not visit Strata Florida? The remains of this great abbey and burial place of Welsh prince and poets, the "Westminster Abbey of Wales" is located in a beautiful valley in Ceredigion. The site, maintained by Cadw, is free to enter.



### HEALTHY HERBS

Monks grew herbs in their monastery gardens, for cooking and also for medical treatment. Why not grow some herbs to use in your own cooking? Popular herbs included: sage, parsley, mint and dill. Any of these can be grown in a pot in a sunny spot.





# MAPIO'R HANES

LLEFYDD ARWYDDOCAOL AR HYD Y DAITH

# MAPPING THE HISTORY

SIGNIFICANT PLACES ALONG THE WAY

- RHUFEINIG / ROMAN
- CELTAIDD / CELTIC
- SISTERSAIDD / CISTERCIAN
- BEIBL / BIBLE
- METHODISTAIDD / METHODIST
- CYFOES / CONTEMPORARY







# Y BEIBL YN EIN HIAITH

## FFORDD GREIGIOG

Mae'r Beibl a ddefnyddir gan Gristnogion yn gasgliad o lawer o ddogfennau a roddwyd ynghyd mewn un gyfrol. Yn yr Hen Destament, a ysgrifennwyd yn wreiddiol mewn Hebraeg, cawn yr ysgrythurau a fyddai'n wybyddus i Iesu. Yn y Testament Newydd cawn gasgliad o storïau a llythyrau am Iesu a'r eglwys fore. Ysgrifennwyd y Testament Newydd yn wreiddiol mewn Groeg, iaith y bobl gyffredin ar y pryd.



Yn y bumed ganrif cafodd y Beibl ei gyfieithu i'r Lladin gan Sant Jerôm. Dyma oedd y testun safonol wedyn ar gyfer Cristnogion yn y Gorllewin. Fodd bynnag, ymhen mil o flynyddoedd, ni allai'r rhan fwyaf o bobl yng ngorllewin Ewrop ei ddarllen na'i ddeall. Yn y 14eg ganrif, cyfieithwyd y Beibl i rai o ieithoedd brodorol y bobl gan ysgolheigion fel John Wycliffe. Ond roedd cyfieithu'r Beibl yn cael ei ystyried yn her i awdurdod yr eglwys; cafodd Wycliffe ac eraill tebyg iddo eu galw yn hereticaid ac fe waharddwyd eu gwaith.


Yn sgil y Diwygiad Protestannaidd yn yr 16eg ganrif, cyfreithlonwyd cyfieithu'r Beibl i'r Gymraeg a'r Saesneg ym Mhrydain. Y cyfieithiad Saesneg cyntaf i'w awdurdodi oedd Beibl yr Esgobion yn 1568.

Am resymau gwleidyddol, sef i sicrhau na fyddai'r Cymry yn codi yn erbyn y Frenhines Elisabeth y cyntaf, pasiodd y Senedd Ddeddf Cyfieithu'r Ysgrythurau i'r Gymraeg yn 1563. Cyhoeddwyd fersiynau Cymraeg o'r Testament Newydd a'r Llyfr Gweddi Gyffredin yn 1567. Gorchynnodd Elisabeth fod y Beibl Cymraeg i'w osod ym mhob eglwys yng Nghymru "er mwyn i bawb sy'n siarad Cymraeg allu darllen a deall." Roedd holl wasanaethau a gweddiâu eglwysi Cymru i fod yn Gymraeg.

Cafodd cyfieithu'r Beibl ddylanwad aruthrol ar ddiwylliant Cymru. Gan ei fod wedi rhoi'r fath amlygrwydd i'r Gymraeg, fe olygodd fod iaith, diwylliant a thraddodiad Cymru wedi cael eu diogelu, gan arwain hefyd at hyrwyddo datblygiad llenyddiaeth Gymraeg.

## EI WELD DROSOCH EICH HUN

Gallwch weld Beibl William Morgan yn rhithwir yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth.





# THE BIBLE IN WELSH

## A ROCKY ROAD

The Christian Bible is a collection of many documents, gathered together into one volume. The Old Testament, originally written in Hebrew, contains the scriptures that Jesus knew. The New Testament is a collection of stories and letters about Jesus and the early church, originally written in Greek, the language of the ordinary people of the time.



In the 5th Century, the Bible was translated into Latin by St Jerome, and this became the standard text for Christians in the West. A thousand years later, however, most people in Western Europe could not read or understand it. Some scholars, like John Wycliffe in the 14th Century, translated the Bible into languages that could be understood by ordinary people – this is known as the *vernacular*. Translating was seen as a challenge to the authority of the church, however, and Wycliffe and others like him were labelled heretics and their works were banned.


With the Protestant Reformation of the 16th Century it became legal in Britain to translate the Bible into Welsh and English. The first authorised translation into English was the Bishops' Bible of 1568.

For political reasons, to ensure that the Welsh didn't rebel against Elizabeth I, Parliament passed the Act for the Translation of the Scriptures into Welsh in 1563. Welsh versions of the New Testament and the Book of Common Prayer were both published in 1567. Elizabeth ordered that the Welsh Bible be placed in every church in Wales "so that all who speak Welsh can read and understand". All church services and prayers in Wales were to be in Welsh.

The translation of the Bible had a major cultural influence in Wales, and it can be said that the prominence it gave to the Welsh language served to preserve Welsh language, culture and tradition, and encouraged the development of Welsh literature.

## SEE IT FOR YOURSELF

You can see the William Morgan Bible virtually in the National Library of Wales in Aberystwyth.





## CYSYLLTIADAU CYMRAEG

### MARY JONES

Dechreuodd Mary Jones gynilo i brynu Beibl pan oedd hi'n naw oed. Yn 1800, a hithau'n un ar bymtheg, dywedir iddi gerdded yn droednoeth, o'i chartref yr holl ffordd i'r Bala oedd tua 45 kilometr i ffwrdd (26 milltir), oherwydd iddi glywed fod Thomas Charles yn gwerthu Beiblau. Roedd yntau wedi'i gyffwrdd gymaint gan ei brwdfrydedd nes iddo roi iddi Feibl yr oedd wedi'i addo i rywun arall. Daeth hanes Mary Jones yn adnabyddus yng Nghymru ac yn ysbrydoliaeth i sefydlu Cymdeithas y Beibl


Beth am ymweld â Byd Mary Jones yn Llanycil fel y cewch ddysgu mwy amdani?

### MENTRO ALLAN

Yn Eglwys Gadeiriol Llanelwy mae cofeb i gyfieithwyr y Beibl, yn arbennig William Morgan a fu'n Esgob Llanelwy. Enw caffi'r Gadeirlan yw Caffi'r Cyfieithwyr ac yna mae gweithgareddau a gwybodaeth i'w cael yno, yn ogystal â chopi o Feibl gwreiddiol 1588.

Mae Tŷ Mawr Wybrnant lle ganed William Morgan yn awr yn eiddo i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Adferwyd y tŷ yn y fath fodd fel y gallwn weld sut y buasai'n edrych yn y 16eg ganrif.

Cyflawnodd William Morgan y rhan fwyaf o'r gwaith o gyfieithu'r Beibl pan oedd yn ficer yn Llanrhaeadr ym Mochnant. Mae cofeb iddo i'w gweld y tu allan i eglwys Sant Dogfan.



### WYDDECH CHI?

- Yn 1567, cyfieithwyd y Testament Newydd a'r Salmu i'r Gymraeg gan William Salesbury gyda chymorth Richard Davies, Esgob Tyddewi.
- Yn 1588 cyfieithwyd y Beibl cyfan gan William Morgan, ficer Llanrhaeadr ym Mochnant ac Esgob Llandaf a Llanelwy yn ddiweddarach.
- Yn 1620 diwygiwyd cyfieithiad William Morgan gan John Davies, Mallwyd ac mae'r fersiwn hwn yn parhau i gael ei ddefnyddio hyd heddiw.
- Y Gymraeg oedd yr unig iaith ddi-wladwriaeth yn Ewrop oedd â Beibl wedi'i gyhoeddi ynddi cyn pen canrif ar ôl y Diwygiad Protestannaidd.
- Bu peth beirniadaeth fod iaith William Salesbury yn anodd – dewisodd fersiynau Lladin o eiriau yn hytrach na geiriau Cymraeg, e.e. eccles yn lle eglwys, Deo yn lle Duw. Cyfieithodd William Morgan y Testament Newydd yn uniongyrchol o'r ieithoedd gwreiddiol.
- Dau brif gyfieithiad o'r Beibl a gawsom ers hynny sef Y Beibl Cymraeg Newydd yn 1988 a beibl.net, ar-lein yn 2002 ac mewn print yn 2015.




## WELSH CONNECTIONS

### MARY JONES

Mary Jones started saving to buy a Bible when she was nine. In 1800, when she was 16, it is said she walked barefoot from her home to Bala, a walk of about 45 kilometers, as she had heard Thomas Charles had Bibles to sell. He was so moved by her enthusiasm that he gave her a bible promised for someone else.

You can visit Mary Jones World in Llanycil to learn more about her.



### OUT AND ABOUT

St Asaph Cathedral has a monument to the translators of the Bible, especially to William Morgan, who was Bishop there. The café is called the Translators Café, and inside are activities and information, and also the William Morgan Bible itself.



Morgan's birthplace, Ty Mawr Wybrnant, near Betws y Coed, is a National Trust property and it has been restored to what it would have looked like in the 16th century.

William Morgan translated the Bible mostly during his time as Vicar of Llanrhaedr ym Mochnant. There is a monument to him there outside St Dogfan's church.

### DID YOU KNOW?

- In 1567, William Salesbury, helped by Bishop Richard Davies of St David's, translated the New Testament and the Psalms.
- In 1588 William Morgan, Vicar of Llanrhaeadr ym Mochnant and later Bishop of Llandaff and St Asaph, translated the entire Bible.
- John Davies revised Morgan's translation in 1620 and this version is still used today.
- The Welsh Bible was the only non-state language of Europe to have a published Bible within a century of the Protestant Reformation.
- There was some criticism that William Salesbury's language was difficult, and he chose Latin versions of words and not Welsh words, e.g. *eccles* not *eglwys*, *Deo* not *Duw*. For this reason, William Morgan translated the New Testament directly from the original languages.
- The Bible has had just two further major Welsh translations since Morgan's time: *Y Beibl Cymraeg Newydd* of 1988 and *beibl.net*, online in 2002 and in print in 2015.



## DIWYGIAD METHODISTAIDD

### Y DIWYGIAD METHODISTAIDD YNG NGHYMRU'R DDEUNAWFED GANRIF

Yn y ddeunawfed ganrif fe ddechreuodd cyfnod o newid cymdeithasol ac economaidd ym Mhrydain, a barhaodd i'r bedwaredd ganrif ar bymtheg a thu hwnt. Gan hynny nid yw'n syndod gweld newid mawr hefyd ym mywyd yr eglwys, yn cyd-ddigwydd â'r newidiadau eraill neu hyd yn oed yn rhan ohonynt. Yn Lloegr gwelir y mudiad Methodistiaidd o dan arweiniad John a Charles Wesley. Yng Nghymru fe dyfodd Methodistiaeth o dan arweiniad Howell Harris, Daniel Rowland a William Williams, a Chymraeg oedd iaith y mudiad i bob pwrpas. Fel yn Lloegr, yn yr Eglwys Anglicanaidd yr oedd gwreiddiau'r Diwygiad Methodistiaidd yma yng Nghymru. Yn arwyddocaol iawn, Griffith Jones, rheithor Llanddowror, a sefydlodd drefn addysgol yr ysgolion cylchynol. Rhwng 1731 a 1761, dysgodd tua 200,000 o bobl i ddarllen y Beibl yn eu mamiaith, a hynny'n paratoi'r ffordd iddynt glywed a derbyn pregethu grymus arweinwyr y Methodistiaid.

Ymwelodd John Wesley â Chymru droeon, wrth deithio i Iwerddon yn aml. Byddai'n pregethu ar ei daith. Rhoddodd ei gefnogaeth i Howell Harris a'i gydweithwyr ac roedd yn falch, ac yntau heb fedru'r Gymraeg ei hun, fod eu gwaith hwy yn cynyddu ochr yn ochr â'i ymdrechion cymharol fach yntau yng Nghymru. Fodd bynnag, ymhen amser, datblygodd tyndra rhwng y ddau arweinydd oherwydd gwahaniaethau diwinyddol. Roedd pwyslais Arminiaidd Wesley yn dweud bod iachawdwriaeth i bawb tra roedd Howell Harris y Calfinydd yn pregethu mai y rhagordeiniedig yn unig oedd yn gadwedig. Serch hynny fe barhaodd eu cyfeillgarwch; ym mlynnyddoedd cynnar y Diwygiad, nid oedd y gwahaniaeth rhwng y ddau safbwynt diwinyddol mor amlwg ag y daeth i fod ymhen blynnyddoedd. Yn fras, aeth Methodistiaeth Wesleiaidd Saesneg ar gynydd yn ardaloedd diwydiannol Cymru, pan dyfodd diwydiant a denu pobl Saesneg eu hiaith oedd yn ceisio gwaith. Ar y llaw arall fe ledaenodd Methodistiaeth Galffinaidd (Eglwys Bresbyteraidd Cymru, yn ddiweddarach), cangen Howell Harris, drwy Gymru benbaladr. Roedd naw deg y cant o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg.

Yn 1800, ar ôl marw John Wesley, fe benderfynwyd anfon dau weinidog oedd yn siarad Cymraeg, o Loegr yn ôl i Gymru i bregethu'r efengyl Arminiaidd i'w pobl eu hunain. Aeth gwaith y Diwygiad Methodistiaidd yn ei flaen.



Darllenwch yr emynau hyn a gweld beth sy'n eich taro am y geiriau ac am ysbrydolrwydd Methodistiaeth.

Gariad dwyfol uwch pob cariad, Charles Wesley (Cff 731)

Arglwydd, arwain drwy'r anialwch, William Williams (Cff 702)

Wele'n sefyll rhwng y myrtwydd, Ann Griffiths (Cff 319)

Fy ngorchwyl yn y byd, Charles Wesley (Cff 673)

CANWCH I'R ARGWLWYDD





# METHODIST REVIVAL

## THE EIGHTEENTH CENTURY METHODIST REVIVAL IN WALES

The eighteenth century began a period of social and economic change in Britain which continued into the nineteenth century and beyond. It's hardly surprising, then, that alongside this (or even as part of it), there was great change in the life of the church. In England, this took the form of the Methodist movement led by John and Charles Wesley. In Wales, the growth of Methodism happened largely through the medium of Welsh under the leadership of Howell Harris, Daniel Rowland and William Williams. As in England, the Welsh Methodist Revival was rooted in the Anglican Church. Significantly, Griffith Jones, the rector of Llanddowror, established an educational system known as the circulating schools. Between 1731-1761, some 200,000 people learned to read the Bible in Welsh, preparing the way for them to hear and receive the powerful preaching of the Methodist leaders.

John Wesley visited Wales on many occasions, often on his way to Ireland, preaching as he went. He supported Howell Harris and his colleagues and, as a non-Welsh speaker, was pleased to see their work growing alongside his own more modest endeavours. However, in time, tensions developed between them over theological differences. Wesley's Arminian emphasis said that salvation is for all, while Harris, the Calvinist, preached that salvation was for a pre-ordained elect. Nevertheless, they remained friends, and in the early years of the Revival, the distinction between the two theological positions was more blurred than in later years. Broadly speaking, Wesley's Methodism in English largely developed in the growing industrial areas of Wales, to which English speakers came looking for work, while Harris's Welsh Calvinistic Methodism (later the Presbyterian Church of Wales) was seen across the nation, with ninety per cent of the population speaking Welsh.

In 1800, following John Wesley's death, it was decided to send two Welsh-speaking ministers from England back to Wales to preach the Arminian gospel to their own people. The work of the Methodist Revival continued.



Have a look at the following hymns and see what strikes you about their words and the spirituality of Methodism.

Love divine, all loves excelling,  
Charles Wesley (StF 503)

Guide me, O thou great  
Jehovah, William Williams  
(StF 465 & CFF 948).

Lo amid the myrtles standing  
Ann Griffiths (CFF 904)

A charge to keep I have,  
Charles Wesley (STF 658)


SING TO THE LORD



# METHODISTIAETH YNG NGHYMRU


## BETH YW'R GWAHANIAETH?

Edrychwch ar y ddau lun o John Wesley yn pregethu, i weld allwch chi gael hyd i'r 5 gwahaniaeth.



## DAETHOM YN BELL...

Nid oedd Howell Harris na John Wesley yn bwriadu sefydlu eglwysi newydd. Eu bwriad oedd hyrwyddo adnewyddiad yn yr eglwys Anglicanaidd. Fodd bynnag, wedi marwolaeth y ddau fe ymrannodd eu dilynwyr gyda dilynwyr Harris yn ffurfio'r hyn a adwaenir bellach fel Eglwys Bresbyteraidd Cymru a dilynwyr Wesley yn ffurfio'r Eglwys Fethodistaidd. Dros y blynyddoedd maent wedi cydweithio'n ecwmenaidd, yn lleol a chenedlaethol, i dystio i'r efengyl. Yn fwy diweddar mae taleithiau Cymraeg a Saesneg yr Eglwys Fethodistaidd wedi ceisio cydweithio ac uno er mwyn gweinigogaethu a chenhadu – eglwys ddwyieithog mewn Cymru ddwyieithog.



## MENTRO ALLAN

- Ewch i ymweld â Threfeca, cartref Howell Harris.
- Ewch i bentref y Dyfawden, lle pregethodd John Wesley am y tro cyntaf yng Nghymru.
- Un o gryfderau Methodistaeth gynnar oedd y pwyslais ar gynnal grŵp bach neu seiat, ar gyfer cyfeillach a gweddi. Beth am ddefnyddio deunydd Ffordd Fethodistaidd o Fyw wrth gynnal seiat?

## WYDDECH CHI?

- Gwraig Charles Wesley, brawd John, oedd Sarah (neu Sally) Gwynne oedd yn hanu o'r Garth yng nghanolbarth Cymru. Priodwyd hwy yn eglwys Llanlleonfel yn 1749. Cawsant wyth o blant, yn eu plith y cyfansoddwr enwog SS Wesley.
- Roedd gan Howell Harris ddiddordeb mewn amaeth ac roedd ymhlith sylfaenwyr Cymdeithas Amaethyddol Brycheiniog yn 1755.
- Capel Pendref yn Ninbych oedd y capel Methodistaidd Cymraeg cyntaf yn y byd. Cafodd ei agor yn 1802.
- Priododd y Parchedig James Buckley, gweinidog Methodistaidd yn y ddeunawfed ganrif, â merch bragwr o Lanelli. Mae cwrw a enwyd ar ôl y Parchedig James Buckley ("achubwr eneidiau a thorwr syched") yn parhau i gael ei gynhyrchu a'i werthu heddiw gan gwmni Brains.






# METHODISM IN WALES


## SPOT THE DIFFERENCE

Using this picture of John Wesley preaching, see if you can find the 5 differences in the images.



## WE'VE COME A LONG WAY...

Neither Howell Harris nor John Wesley intended to start new churches. For both of them, the intention was to encourage renewal in the Anglican church. However, after their deaths, their followers split away to form what is now the Presbyterian Church of Wales and the Methodist Church respectively. Over the years both have worked together ecumenically at local and national levels to witness to the gospel. In more recent times the Welsh language and English language districts of the Methodist Church have sought to cooperate and unite for ministry and mission – a bilingual church in a bilingual Wales.



## OUT AND ABOUT

- Visit Trefeca, the home of Howell Harris.
- Visit Devauden, the site of John Wesley's first sermon in Wales.
- One of the strengths of early Methodism was its emphasis on small groups for fellowship and prayer, known as Class Meetings. Why not use A Methodist Way of Life materials and hold a Class Meeting?

## DID YOU KNOW?

- The wife of John Wesley's brother Charles was Sarah Gwynne (known as Sally). She came from Garth in Mid-Wales, and they married at Llanlleonfel church in 1749. They had eight children, including the famous composer SS Wesley.
- Howell Harris was interested in agriculture and was a founding member of the Brecknockshire Agricultural Society in 1755.
- Pendref chapel in Denbigh was the first Welsh language Methodist Church in the world. It opened in 1802.
- Eighteenth century Methodist minister, the Rev James Buckley, married the daughter of a Llanelli brewer, and a beer named in honour of Rev James ("saver of souls and satisfier of thirsts") is still made and sold by Brains today.





## CRISTNOGAETH GYFOES

### YSBRYDOLRWYDD CRISTNOGOL CYFOES YNG NGHYMRU

Cafodd ysbrydolrwydd Cristnogol ei wreiddio bob amser drwy'r oesoedd yn stori Iesu. Mae Cristnogion yn ceisio adnabod Duw a hwy eu hunain yn well drwy ddilyn ffordd Iesu.

Roedd Iesu bob amser yn bresennol yn y foment – roedd yn bresennol gydag eraill gan wrando amynt a'u cydnabod fel brodyr a chwiorydd, pob un ar lun a delw Duw.

Byddai Iesu'n treulio amser gyda phobl ond hefyd yn encilio i weddio ac i fyfyrion ar yr ysgrythurau.

Yn Eglwys Hywyn Sant yn Aberdaron, mae'r geiriau calonogol hyn i'w gweld: "Byddwch yn obeithiol. Byddwch yn ddisgwylgar. Gyrrwch yn ofalus. Ar wahân i hynny, cymerwch risgiau."

Rhan o'r ysbrydolrwydd ehangach sydd yn datblygu yng Nghymru heddiw yw'r risg o brofi'r dwyfol mewn pethau pob dydd. Gadawyd ôl symlrwydd bywyd y saint ar ein tirwedd – ac mae chwilio am y dreftadaeth a adawsant i ni yn ysbrydoli llawer fel eu bod yn cymryd risg wrth ddarganfod ystyr bod yn ysbrydol heddiw.

Mae ysbrydolrwydd Cristnogol yng Nghymru'r unfed ganrif ar hugain i'w weld ar lawer ffurf:

- Pobl yn ymgynnull i gydaddoli mewn capeli ac eglwysi, ar bererindodau, mewn mannau sanctaidd a mannau o harddwch naturiol
- Unigolion yn canfod bod synfyfyrion'n dawel, ar eu pennau eu hunain neu gydag eraill, gan aros yn llonydd neu symud, yn gallu arwain at ymdeimlad o gyswllt â'r dwyfol
- Barddoniaeth, celf a cherddoriaeth yn ein hysgogi i brofi lled a grym profiad pobl o Dduw
- Darllen y Beibl, ar ein pennau ein hunain neu gydag eraill, sy'n dod â stori Iesu yn fyw a'n galluogi i weld sut yr oedd ef yn profi presenoldeb Duw yn ei fywyd

Yn yr holl ffyrdd hyn, mae ysbrydolrwydd Cristnogol yn ein hannog i ystyried pwy ydym ni mewn gwirionedd, gerbron Duw, trwy fyfyrion ar: Pwy ydw i, Pam ydw i, Sut ydw i.



### MENTRO'N DDYFNACH

- Gwrando ar gerddoriaeth heddychlon
- Gwneud neu liwio patrymau Celtaidd – mae llif y llinellau yn hybu llif syniadau ac ymwybyddiaeth ofalgar
- Cymerwch amser i adael i dawelwch, harddwch a Duw yr Annisgwyl gyffwrdd â'ch calon





# CONTEMPORARY CHRISTIANITY

## CONTEMPORARY CHRISTIAN SPIRITUALITY IN WALES

Christian spirituality, throughout the ages, has always been rooted in the story of Jesus. Christians seek to know God and themselves better by following the way of Jesus.

Jesus practiced being present in the moment – he was present with others, he listened to them, recognising them as brothers and sisters, each reflecting the nature of God.

Jesus spent time with people, but also time apart in prayer, and time reflecting on the scriptures.

In St Hywyn's Church, Aberdaron, you will find these words of encouragement: "Be hopeful. Be expectant. Drive safely. Otherwise take risks."

The risk of experiencing the divine in the everyday is part of the broader spirituality developing in Wales today. The simpler lifestyle of the saints has left its mark on our landscape – and seeking their heritage is inspiring many to take the risk of what it means to be spiritual today.

Christian spirituality in Wales in the 21st Century takes many forms:

- Gathering together to worship in chapels, churches, on pilgrimage routes, at holy sites, in places of natural beauty
- Individuals find that quiet contemplation, alone or with others, in stillness or in movement, can lead to a feeling of connection with the divine
- Poetry, art and music move us to experience the breadth and power of the human experience of God
- Reading the Bible, alone or with others, brings to life the story of Jesus and the way in which he experienced the presence of God in his life

In all these ways, Christian spirituality encourages us to consider who we truly are, before God, by reflecting on: Who I am, Why I am, How I am.



## WAYS TO GO DEEPER

- Listen to calming music
- Draw or colour in Celtic patterns – the flowing lines encourage continuity and mindfulness
- Take time to let silence, beauty and the God of Surprises touch your heart





## CYMRU - LLE I DDOD O HYD I DDUW HEDDIW



### MAN ARBENNIG

Un lle sy'n cyfuno ysbrydolrwydd cyfoes a gofal am yr amgylchedd yw Ffald y Brenin, canolfan ecwmenaidd ym mynydd y Preseli. Roedd y pensaer a'i cynlluniodd, Christopher Day, yn awyddus i greu lle a fyddai'n meithrin yr enaid a'r ysbryd ac fe wnaeth allor o'r creigiau ar y fferm hon o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, gan ymresymu "na fyddai'n briodol seilio tŷ tangnefedd ar ffrwydrad". Mae'r capel unigryw a gafwyd yn sgil hynny yn cyfuno gofal ysbrydol ac amgylcheddol mewn ffordd anarferol a chreadigol.


### MENTRO ALLAN

Mae dilyn hen lwybrau'r pererinion a'r porthmyn yn ffordd wych i deulu neu ffrindiau fyfyrion ar dreftadaeth Gristnogol Cymru. Beth am roi cynnig ar un o'r rhain?

- Llwybr Treftadaeth Meini Bywiol
- Llwybrau Saint a Meini (Saints and Stones Trails)
- Beirdd, Offeiriaid a Thafarndai (Poets, Priests and Pubs)
- Drysau Cysegredig

Trwy Gymru benbaladr mae llawer o lefydd i'w cael sy'n cynnig cyfle i bobl o bob oed anturio i ddarganfod yr ysbrydolrwydd sy'n perthyn i fannau cysegredig ac i dawelwch neu olygfeydd sy'n ysbrydoli.

Mae'r Gymdeithas Enciliau (Retreat Association) hefyd yn rhestru llawer o lefydd sy'n cynnig enciliau preswyl a gweithgareddau.





## WALES - A PLACE TO FIND GOD TODAY



### A SPECIAL PLACE

One place that combines both contemporary spirituality and care of the environment is the ecumenical Ffald y Brenin, the Sheepfold of the King, in the Preseli Hills in West Wales. Its architect, Christopher Day, wanted to create a space that would nurture both soul and spirit and made an altar out of the rocks within the original 19th century farm, reasoning that it would be “wrong to found a house of peace on an explosion”. The unique chapel that has resulted combines both spiritual and environmental care in a way that is both unusual and creative.

### OUT AND ABOUT

Following the ancient pilgrimage and drover trails is a great way for a family or friends to reflect on Welsh Christian heritage. Why not try one of these?

- Living Stones Heritage Way
- Saints and Stones Trails
- Poets, Priests and Pubs
- Sacred Doorways

Throughout Wales, many places offer opportunities for all ages to explore the spirituality found in sacred places, peace and quiet or scenic inspiration.

The Retreat Association also lists many places offering residential retreats and activities.



# GWYBODAETH BELLACH

Efallai y bydd y llyfrau a'r gwefannau canlynol o gymorth i chi:

- Blas ar Gristnogaeth Cymru, R. Tudur Jones (Cyhoeddiadau'r Gair)
- Cwlwm Celtaidd - Detholiad o Weddïau yn y Traddodiad Celtaidd (Cyhoeddiadau'r Gair)
- Gweddïau'r Pedwar Tymor, Nick Fawcett (Cyhoeddiadau'r Gair)
- Gweddïau'r Pedwar Tymor 2, Nick Fawcett (Cyhoeddiadau'r Gair)

[www.gair.cymru/deunydd-ar-gyfer-defosiwn-personol-dyddiol](http://www.gair.cymru/deunydd-ar-gyfer-defosiwn-personol-dyddiol)

[www.gwladychwedlau.cymru/themes/sacred-and-spiritual](http://www.gwladychwedlau.cymru/themes/sacred-and-spiritual)



Os hoffech ymchwilio ymhellach i'r themâu yn yr adnodd hwn, awgrymwn eich bod yn cael golwg ar yr adnoddau ychwanegol trwy ddefnyddio'r codau QR ar gyfer pob adran.

# FURTHER INFORMATION

You may find the following books and websites helpful:

- A History of Christianity in Wales, David Ceri Jones, Professor Barry J. Lewis, Madeleine Gray, D. Densil Morgan (Gwasg Prifysgol Cymru / University of Wales Press)
- Celtic Christianity in Early Medieval Wales: The Origins of the Welsh Spiritual Tradition, Oliver Davies (Gwasg Prifysgol Cymru / University of Wales Press)
- Pilgrimage: A Welsh Perspective, Terry John & Mona Rees (Gwasg Gomer, 2002)
- Prayers for All Seasons - Book One, Nick Fawcett (Kevin Mayhew Ltd)
- Prayers for All Seasons - Book Two, Nick Fawcett (Kevin Mayhew Ltd)

[www.faithandworship.com](http://www.faithandworship.com)

[www.landoflegends.wales/theme/sacred-and-spiritual](http://www.landoflegends.wales/theme/sacred-and-spiritual)



If you want to delve further into exploring the themes which appear in this resource we recommend you browse the additional resources via the QR codes for each section.

TAITH DRWY HANES – **2000 O FLYNYDDOEDD**  
O **YSBRYDOLRWYDD CRISTNOGOL** YNG NGHYMRU

Cynhyrchwyd gan Fforwm Dysgu a Datblygu'r Eglwys Fethodistaidd yng Nghymru. Gyda diolch arbennig i'r Parch Ddr Jennie Hurd (Cadeirydd Synod Cymru), y Parch Ddr Manon Ceridwen James (Athrofa Padarn Sant) a'r Parch Christine Browne (Ceidwad Eglwys Gysegrfa a Chanolfan Santes Melangell). Defnyddir pob llun a ffotograff gyda chaniatâd gan; Jon Miller, Pete Harris, Gareth Bennett, Ffald y Brenin, Cadw, Unsplash a Shutterstock.



WALKING THROUGH HISTORY – **2000 YEARS**  
OF **CHRISTIAN SPIRITUALITY** IN WALES

Produced by the Learning and Development Forum of the Methodist Church in Wales. With special thanks to Rev Dr Jennie Hurd (Chair of Synod Cymru), Rev Dr Manon Ceridwen James (St Padarn's Institute) and Rev Christine Browne (Guardian of St Melangell's Shrine Church and Centre). All images and photographs used with permission from; Jon Miller, Pete Harris, Gareth Bennett, Ffald y Brenin, Cadw, Unsplash and Shutterstock.